# Gwelliant cydweithredol: manteision a myfyrdodau o bob rhan o'r DU

## Crynodeb o'r digwyddiad

Roedd QAA Cymru yn falch iawn o gynnal gweminar fywiog ar 21 Mai 2024 er mwyn rhannu profiadau o welliant cydweithredol ar draws y DU. Roedd y weminar yn rhan o brosiect QAA a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i archwilio gwelliant cydweithredol, manteision a heriau gweithio ar y cyd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw anawsterau sy'n ymwneud â gweithio ar draws ffiniau'r DU a'r berthynas rhwng partneriaid mewn colegau a phrifysgolion sy'n ymwneud â phrosiectau trydyddol.

### Panel y weminar

Roedd ein panel arbenigol, dan gadeiryddiaeth Rheolwr Sicrhau Ansawdd ac Ymgysylltu QAA Cymru, David Gale, yn cynnwys:

- Sam Elkington, Athro yn adran Dysgu ac Addysgu, Prifysgol Teesside; arweiniodd Sam y prosiect Nodweddion Cynllun Asesu gan bartneru â sefydliadau addysg uwch yn Lloegr a Chynghrair y Prifysgolion
- Luke Millard, Deon Addysgu a Dysgu, Prifysgol Abertay; mae Luke yn arwain y prosiect clwstwr cydweithredol Ymagweddau Personol at Wydnwch a Chymuned (PARC), gan weithio gydag ystod o sefydliadau AU yn yr Alban a Lloegr
- Jo Owen, Rheolwr Addysg Uwch, Grŵp Llandrillo Menai; bu Jo yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ar y prosiect Ymgysylltiad Myfyrwyr mewn Dysgu
- Steph Tindall, Pennaeth Datblygu Sefydliadol, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; mae Steph yn arwain y prosiect Rhwydwaith Dysgu Trwy Drochi sy'n dod â holl sefydliadau addysg bellach ac uwch Cymru ynghyd.

Mae pob un o'n panelwyr wedi bod, neu ar hyn o bryd, yn ymwneud â phrosiectau ymgysylltu cydweithredol sydd wedi cael, neu sy'n cael eu cefnogi, gan QAA naill ai trwy gyllid a ddarparwyd gan CCAUC, Cyngor Cyllido'r Alban (SFC) neu QAA yn uniongyrchol trwy eu gweithgareddau ar gyfer yr aelodaeth.

Tra bod QAA yn diffinio'n ffurfiol gwelliant fel 'y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y cefnogir dysgu myfyrwyr', mae dehongliadau gwahanol yn cynnwys gwneud pethau'n well neu hyd yn oed yn well nag y maent eisoes. Hyn yn ogystal â gwelliannau i addysgu a dysgu neu agwedd ar brofiad y myfyriwr sydd ag elfen o risg – oherwydd nid yw deilliannau prosiectau gwelliant bob amser yn hysbys ar eu cychwyn.

Yn ystod y weminar, buom yn archwilio ystod o fanteision a heriau sy'n perthyn i gydweithio ac roedd pob un yn cytuno, er bod rhai heriau, y gellir lleihau'r rhain trwy hyblygrwydd wrth ddylunio prosiectau a'u rheoli.

## Heriau

Dyma rai o’r heriau allweddol a amlygwyd i gyfranogwyr y prosiect fod yn ymwybodol ohonynt:

- Cynllunio cyfarfodydd – ystyried amserlennu cyfarfodydd prosiect yn gynnar oherwydd gall dod o hyd i amserau sy’n gyfleus i nifer o gyfranogwyr ddod at ei gilydd fod yn un o’r elfennau anoddaf mewn prosiectau cydweithredol.
- Rhannu data – os oes angen i chi rannu data rhwng sefydliadau – trefnwch gytundeb rhannu data yn gynnar yn y broses, os nad yw eisoes ar waith.
- Iaith – byddwch yn ymwybodol o iaith ac, ar gyfer prosiectau gyda chyfranogwyr yng Nghymru, Safonau’r Gymraeg. Mae’n bosibl y bydd angen i gyfarfodydd fod yn ddwyieithog, er nad yw hyn bob amser yn angenrheidiol, ond bydd angen cyhoeddi’r holl allbynnau sy’n wynebu’r cyhoedd yn y Gymraeg a’r Saesneg, felly cofiwch gynllunio amser a chyllideb ar gyfer cyfieithu.
- Gwahaniaethau rhwng gwledydd – ystyriwch wahaniaethau rhwng gwledydd megis lefelau: mae lefel 4 yn Lloegr yn cyfateb i lefel 6 yn yr Alban, er enghraifft. Gellir goresgyn y rhain yn hawdd trwy gytuno ar gyffredinedd iaith yn gynnar o fewn prosiect.

## Manteision

Cydnabuwyd bod gweithio gyda phartneriaid yn ychwanegu gwerth at unrhyw brosiect, gan helpu i gyd-greu nodau a chynlluniau’r prosiect, hyd yn oed pan fydd yna hyblygrwydd a chynlluniau'n esblygu ac yn datblygu trwy gydol y prosiect.

Roedd gweithio yn y maes trydyddol yn galluogi cydweithwyr i ddeall safbwyntiau myfyrwyr yn well, a hyd yn oed yn y sector colegau lle mae yna lai o fyfyrwyr AU o gymharu â phrifysgolion, roedd staff yn gallu cael gwell dealltwriaeth o safbwyntiau myfyrwyr a chydnabod yr elfennau cyffredin a fynegwyd gan fyfyrwyr prifysgol, yn ogystal â’r gwahaniaethau. Ystyriwyd bod gwell dealltwriaeth o'r darparwyr addysg uwch o fudd i gyfranogwyr prosiectau mewn colegau a phrifysgolion.

Gall gweithio gyda myfyrwyr o fewn prosiectau, gan gynnwys y defnydd gweithredol o fyfyrwyr-ymchwilwyr fel partneriaid yn y prosiect, sicrhau bod llais y myfyrwyr yn gynhenid o fewn prosiectau ac nid yn atodiad i weithgareddau a chanfyddiadau a arweinir gan staff.

Trwy gydol y sgwrs roedd yn amlwg bod **gweithio gydag** eraill yn well na hebddynt. Partneriaid y prosiect:

- cefnogi ei gilydd
- darparu/rhannu adnoddau, lle bo modd, gyda phartneriaid sydd â mynediad cyfyngedig
- cyfuno gallu deallusol – creu grym ar gyfer gwelliant
- dod ag ystod o sgiliau ynghyd er mwyn ychwanegu at set sgiliau tîm y prosiect yn ei gyfanrwydd
- rhannu brwdfrydedd i gydweithio a dysgu.

## Hintiau handi

Yn olaf, gofynnwyd i bob un o’r panelwyr am eu hawgrymiadau ar gyfer cydweithio llwyddiannus – dyma rai ohonynt.

➢ Byddwch yn barod i gael eich synnu – gall hyn fod gan y canfyddiadau, y cyfranogwyr ychwanegol sydd am ymuno â’ch prosiect neu lefel brwdfrydedd tîm y prosiect.

- Gwnewch yn siŵr ei fod yn hwyl! Yn aml, nid yw’r cyllid ond yn talu am wariant allweddol, megis cytundebau myfyrwyr-ymchwilwyr a bydd partneriaid yn gwneud eu cyfraniadau yn eu hamser eu hunain – felly gwnewch yn sicr bod y profiad yn werth eu hamser trwy wneud cyfarfodydd a thrafodaethau yn bleserus.
- Peidiwch â bod yn rhy gaeth i reolau - byddwch yn barod i fod yn hyblyg ac addasu yn ôl yr angen wrth i'r prosiect fynd rhagddo.
- Ymddiriedwch yn eich partneriaid i wneud y gwaith. Mae pobl yn ymuno â phrosiect oherwydd eu bod yn frwdfrydig am y pwnc - gweithiwch gyda hynny a mwynhewch eu brwdfrydedd nhw a’ch brwdfrydedd chi.
- Blaenoriaethau strategol – pan fo prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol sefydliadau, mae'n haws cael cefnogaeth uwch-gydweithwyr o ran adnoddau ac amser staff. Ystyriwch flaenoriaethau eich sefydliad ac uwch-gydweithwyr a all gefnogi a hyrwyddo eich prosiect yn fewnol.
- Mae’n bwysig cynnal agwedd bragmatig – dylai’r prosiect fod yn broses ddysgu, felly byddwch yn agored i ddysgu ffyrdd newydd o wneud pethau, syniadau newydd a ffyrdd amgen o gydweithio.
- Meithrin perthnasoedd – erbyn diwedd y prosiect, mae’n bosib y bydd gennych chi ffrind am oes neu gydweithredwr ar gyfer eich papur nesaf a adolygir gan gymheiriaid, felly gwnewch le i feithrin perthnasoedd; ystyriwch gwtogi agendâu a sicrhau amser ar gyfer trafodaeth.
- Mynychwch eich rhwydweithiau a daliwch ati i siarad am eich blaenoriaethau a’ch meysydd i’w datblygu – a fydd yn helpu eraill i’ch adnabod fel cydweithredwr posibl pan fydd eich diddordebau’n cyd-fynd.

## Prosiectau Gwelliant Cydweithredol

I gael gwybod mwy am yr ystod eang o Brosiectau Gwelliant Cydweithredol a gefnogir gan QAA, ewch i'r tudalennau gwe canlynol:

- Gwelliant yng Nghymru: Ein gwaith yng Nghymru (qaa.ac.uk)
- Gwelliant yn yr Alban: Themâu Gwelliant
- Prosiectau Gwelliant Cydweithredol a Ariennir gan QAA: Prosiectau Gwelliant Cydweithredol (qaa.ac.uk)

Cyhoeddwyd - Mehefin 2024

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk